# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 27 Ionawr 2020** |
| Amser: | **12.35** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AC**<br>**Siân Gwenllian AC**<br>**David J Rowlands AC**<br>**Joyce Watson AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol**<br>**Kathryn Potter, Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil**<br>**Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

### 1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 1.b Datgan buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant. Nododd David Rowlands ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Diwygio Etholiadol.

1.c Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd.

## 2 Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Trafododd y Comisiynwyr gynnig ar gyfer strategaeth i wella'r ffordd y mae'r Cynulliad yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phobl Cymru, gan ddod â llawer mwy o bwyslais ar y cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o siarad â'r cyhoedd a'u cynnwys yn ein gwaith.

Fe wnaethant drafod y pedwar gyrrwr a nodwyd yn y cynigion:

**a.** Rhoi'r Dinesydd wrth wraidd popeth y mae'r Cynulliad yn ei wneud.

**b.** Rhoi cyfathrebu digidol wrth wraidd gweithrediadau'r Cynulliad fel ffordd o hwyluso a democrateiddio'r broses ymgysylltu.

**c.** Gwneud cyfathrebiadau yn symlach ac yn gyson - negeseuon brand syml, gafaelgar wedi'u targedu at grwpiau demograffig penodol.

**d.** Gwneud newidiadau i strwythur y Gyfarwyddiaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu i gefnogi gweithrediad a diwylliant 'Digidol yn Gyntaf'; a gwella cymhwysedd digidol, setiau sgiliau a dulliau cyflwyno yn barhaus.

Tynnodd y Comisiynwyr sylw at rai elfennau yr hoffent gael sicrwydd yn eu cylch, fel allgau digidol, strategaeth cyfryngau cymdeithasol ac arwyddocâd golygu yn llwyddiant dull newydd. Roeddent yn cefnogi'r strategaeth i roi mwy o bwyslais ar y cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu ac ymgysylltu â dinasyddion, ac fe wnaethant gadarnhau bod y strategaeth yn adlewyrchu eu blaenoriaethau ymgysylltu.

Cytunodd y Comisiynwyr hefyd i adolygu effeithiolrwydd cychwynnol y newid hwn mewn cyfeiriad strategol cyn diwedd y Cynulliad hwn.

## 3 Cais y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

Trafododd y Comisiynwyr gais gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i gael gafael ar gyllid o gyllideb Comisiwn y Cynulliad er mwyn comisiynu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd i lywio ei waith ar faint a chapasiti'r Cynulliad a sut mae Aelodau'n cael eu hethol.

Trafododd y Comisiynwyr gydbwysedd y cynigion, un yn nodi hoff ddewis ymhlith grŵp o Aelodau y dylid trafod y materion sy'n ymwneud â diwygio etholiadol yn y Cynulliad nesaf. I gloi, cytunodd y Comisiwn ar y dewis sy'n cael ei ffafrio gan y Pwyllgor.

## 4 Diwygio'r Cynulliad - materion newid enw

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiynwyr am y cynnydd hyd yma gyda'r gwaith o fwrw ymlaen â'r newid enw. Fe wnaethant drafod cyfres o benderfyniadau sy'n

angenrheidiol i weithredu’r newid enw yn effeithiol erbyn 6 Mai 2020, pan ddaw'r darpariaethau i rym.

Cytunodd y Comisiynwyr, o fwyafrif mewn rhai achosion, ar y cynigion a wnaed mewn perthynas â’r eitemau a ganlyn:

- Brandio dangosol i'w ddefnyddio ar logo ac arwyddion ac ati;
- Confensiwn enwi ysgrifenedig, y datganiad diwygiedig o ddiben, sôn am y tro cyntaf/yr ail dro o fewn y testun;
- Termau’r Cynulliad - cyfeiriadau hanesyddol ac yn y dyfodol;
- Y wefan, cyfeiriadau e-bost a’r cyfryngau cymdeithasol;
- Cyfeiriad a chod post;
- Diweddaru’r Cynllun Ieithoedd Swyddogol;
- Nodi’r newid ffurfiol o’r Cynulliad i’r Senedd;
- Sêl newydd y Comisiwn.

## 5 Diweddariad Brexit

Nododd y Comisiynwyr fod y paratoadau ar gyfer gadael yr UE ar 31 Ionawr a'r cyfnod gweithredu dilynol (hyd at 31 Rhagfyr 2020) yn mynd rhagddynt, mewn perthynas â busnes y Cynulliad a'r gwasanaethau corfforaethol (gan gynnwys contractau gwasanaeth a chyflenwi).

## 6 Cyllideb atodol

Trafododd y Comisiynwyr gynigion ar gyfer cyllideb atodol, oddeutu £0.35 miliwn, i'w cynnwys yng nghynnig cyllideb Llywodraeth Cymru.

Dyma’r prif ffactorau a lywiodd y gyllideb atodol hon:
• Tanwariant ar Benderfyniad y Bwrdd Taliadau (lleihau'r dyraniad i dalu costau’r Penderfyniad £0.500 miliwn);
• Cyfrifiad cost canol blwyddyn cyllid pensiwn y Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 (IAS19) (cynyddu cyllideb gostau’r cyllid pensiwn £0.150 miliwn).

Nododd a chymeradwyodd y Comisiynwyr y Memorandwm Esboniadol, a fydd yn gostwng Cyllideb 2019-20 £0.35 miliwn; a llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

## 7 Cynigion y Pwyllgor Cyllid i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Nododd y Comisiynwyr lythyr gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch ymgynghoriad y Pwyllgor ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft.

Roedd y Comisiwn wedi cyflwyno barn i'r Pwyllgor yn flaenorol. Cytunodd y Comisiynwyr ar ymateb i'r Pwyllgor, yn amodol ar fân ddiwygiadau, gan dynnu sylw'r Pwyllgor at y

darpariaethau yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ynghylch talu treuliau i Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 8 Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar drefniadau asesu ac adrodd 2018-19 - Ymateb y Comisiwn

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiynwyr am waith craffu arferol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfrifon 2018-19. Roedd yr adroddiad yn cynnwys chwe argymhelliad.

Cytunodd y Comisiynwyr ar eu hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

## 9 Papurau i'w nodi:

### 9.a Diwygio'r Cynulliad - Diweddariad addysg a chodi ymwybyddiaeth Pleidleisiau @16

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiynwyr am y cynlluniau i greu adnoddau addysgol ac adnoddau codi ymwybyddiaeth y gall addysgwyr, gweithwyr ieuenctid, ac eraill sy'n gweithio â phobl ifanc eu defnyddio. Aeth y Comisiynwyr ati i wirio bod yr adnoddau sy'n cael eu datblygu yn addas ar gyfer y cwricwlwm newydd. Nododd y Comisiynwyr hefyd y diweddariad a gafwyd yn dilyn cytundeb y Comisiwn ynghylch pennu dull cyffredinol a chynulleidfaoedd allweddol ym mis Tachwedd.

### 9.b Llythyr gan y Bwrdd Taliadau

Nododd y Comisiynwyr lythyr gan y Bwrdd Taliadau a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn dilyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Gofynnodd y llythyr am wybodaeth bellach a manylion ynghylch presenoldeb swyddogion mewn un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol; roedd hyn yn ymwneud â chostau swyddfa a ddarperir gan Gomisiwn y Cynulliad, ac Yswiriant Atebolrwydd Arferion Cyflogaeth.

### 9.c Newid y Bwrdd Pensiwn i strategaeth fuddsoddi

Nododd y Comisiynwyr y wybodaeth a gafwyd gan y Bwrdd Pensiwn am newid i strategaeth fuddsoddi Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, sef gostwng buddsoddiadau'r Cynllun yn y sector olew a nwy.

### 9.d Cofnodion cyfarfod ACARAC

Dyma'r diweddariad arferol, a ddarparwyd yn dilyn cyfarfod ACARAC ar 21 Hydref.

### 9.e Diweddariad gan y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Nodwyd y diweddariad arferol.

## 10 Unrhyw Fater Arall

- Mynd â busnes y Cynulliad i leoliad y tu allan i Gaerdydd

Mewn trafodaethau â grwpiau ac arweinwyr plaid, roedd yr adborth, yn gyffredinol, wedi bod yn gefnogol i wythnos gywasgedig o fusnes y Cynulliad, i'w gynnal yng Ngogledd-ddwyrain Cymru.

Cytunodd y Comisiwn, drwy fwyafrif, y dylai gwaith i gyflawni'r fenter fynd yn ei flaen yn awr, a chytunodd i gyllideb ddangosol o hyd at £250k.

- Llythyr gan dri Aelod

Cytunodd y Comisiynwyr i gadw’r polisi cofebion yn ei ffurf bresennol.

- Digwyddiadau ar yr ystâd

Trafododd y Comisiynwyr faterion yn ymwneud â digwyddiadau sy'n cynnwys dadl wleidyddol, a'r ffiniau o ran yr hyn sy'n ddefnydd priodol o'r ystâd, a gofynnwyd am bapur ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

Yn y cyfnod ers y cyfarfod blaenorol, roedd y Comisiynwyr wedi cytuno i gais gan y BBC i gynnal dadl etholiad ar yr ystâd. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod briffio gyda'r Comisiynwyr a'r Llywydd ar 11 Tachwedd mewn perthynas â’r trefniadau ar gyfer cael Comisiynydd Safonau dros dro.